CPS

# Adroddiad ar drosedd casineb

2007 – 2008

CANGEN GWYBODAETH REOLI

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2008

# Mynegai


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 2 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 3 | Casgliadau allweddol trosedd casineb | 6 |
| 4 | Trosedd casineb hiliol a chrefyddol | 15 |
| 5 | Casgliadau allweddol trosedd gwaethygol hiliol a chrefyddol | 17 |
| 6 | Trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig | 25 |
| 7 | Casgliadau allweddol trosedd homoffobig a thrawsffobig | 26 |
| 8 | Trosedd casineb tuag at bobl anabl | 34 |
| 9 | Casgliadau allweddol digwyddiadau anabledd | 35 |
| | Atodiad 1: Erlyniadau fesul rhanbarth | 43 |
| | Geirfa | 47 |

# 1 Crynodeb gweithredol

Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar Drosedd Casineb, ac mae'n dwyn gwybodaeth ynghyd am berfformiad y CPS wrth erlyn trosedd casineb hiliol a chrefyddol, trosedd trawsffobig a homoffobig, digwyddiadau anabledd a thrais yn y cartref. Hyd at eleni, roedd y CPS yn cynnwys trais yn y cartref o fewn ei fesur ar drosedd casineb, ond bellach bydd yn grwpio'r troseddau hyn o fewn mesur ar wahân ynghylch trais yn erbyn menywod. Mae dadansoddiad llawn o berfformiad y CPS mewn perthynas â thrais yn y cartref yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Trais yn erbyn Menywod 2007-08.

## Trosedd casineb - Casgliadau allweddol cyffredinol

- Yn y tair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2008, erlynwyd dros 200,000 diffynnydd am droseddau casineb
- Yn ystod y cyfnod hwn, cododd y gyfradd euogfarnu o 62% yn 2005-06 i 71% yn 2007-08
- Cododd pledion euog o 59% i 63%
- Aethpwyd y tu hwnt i'r targed o ostwng canlyniadau aflwyddiannus i 28% erbyn pedwerydd chwarter y flwyddyn, gyda ffigur o 27.6%.
- Fe wnaeth cyfran yr achosion a fethodd oherwydd materion fel dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl, ac achosion ble methodd dioddefwyr fynychu gwrandawiad llys, barhau yn sefydlog ar 55% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Fodd bynnag er bod materion dioddefwyr yn arbennig o berthnasol i achosion trais yn y cartref, mae rhesymau eraill dros fethu, fel rhyddfarnu ar ôl treial, yn fwy cyffredin ar gyfer llinynnau trosedd casineb eraill.
- Dynion oedd mwyafrif helaeth y diffynyddion trosedd casineb ar draws y llinynnau.
- Er bod y data ar ddemograffeg dioddefwyr yn llai dibynadwy ac wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd, y mae gwahaniaethau sylweddol o ran rhyw ar draws y llinynnau. Mewn achosion trais yn y cartref, menywod oedd mwyafrif llethol y dioddefwyr (86%), tra bo menywod yn ddioddefwyr mewn 38-48% o achosion mewn llinynnau trosedd casineb eraill.
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin i gael eu herlyn mewn achosion trais yn y cartref (tua 72%). Rhannwyd troseddau mewn achosion hiliol a chrefyddol a homoffobig rhwng troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus. Roedd achosion digwyddiadau anabledd hefyd yn cynnwys mwy o droseddau corfforol yn ogystal â throseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn.
- Mewn 78% o droseddau casineb, nodwyd bod y diffynyddion yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a dosbarthwyd 81% yn ddiffynyddion Gwyn.

## Trosedd hiliol a chrefyddol - casgliadau allweddol

- Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 33,000 diffynnydd am droseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol.
- Cododd euogfarnau o 74% yn 2005-06 i 80% yn 2007-08
- Cododd pledion euog o 64% i ychydig dan 67%
- Yn chwarter olaf 2007-08, aethpwyd y tu hwnt i darged y CPS o ostwng erlyniadau aflwyddiannus i 20%, gyda ffigur o 19.7%.
- Yn 2007-08, ymhlith y rhesymau mwyaf cyffredin dros ganlyniadau aflwyddiannus oedd rhyddfarnu ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll. Fodd bynnag bu cynnydd mewn achosion yn methu oherwydd bod dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl, peidio â mynychu'r llys, a'r achosion hynny ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos.

- Yn 2007-08, dynion oedd mwyafrif y diffynyddion ar 85%
- Yn 2007-08, troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin (84%).
- Yn 2007-08 nodwyd bod 76% o ddiffynyddion troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

## Trosedd homoffobig a thrawsffobig- casgliadau allweddol

- Yn y tair blynedd yn diweddu ym Mawrth 2008, erlynwyd dros 2,400 diffynnydd am droseddau homoffobig neu drawsffobig.
- Yn ystod y cyfnod hwn, cododd euogfarnau o 71% i 78% yn 2007-08
- Cododd pledion euog o 58% i 67%
- Targed 2007-08 oedd gostwng canlyniadau aflwyddiannus i 20%. Roedd y canlyniadau y tu allan i'r targed, ar 22.6% erbyn y pedwerydd chwarter.
- Rhyddfarnau ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll oedd yn gyfrifol am fwyafrif y canlyniadau aflwyddiannus
- Er bod nifer y canlyniadau aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu o 06-07 i 07-08, bu cwymp bach mewn termau cyfrannol, o 5% i lai na 4%.
- Dynion oedd mwyafrif y diffynyddion (87%)
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin.
- Yn 2007-08 nodwyd bod 76% o ddiffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

## Trosedd casineb tuag at bobl anabl - casgliadau allweddol

- 2007-08 yw'r flwyddyn gyntaf i wybodaeth am berfformiad ar ddigwyddiadau anabledd gael eu cadw.
- Yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd 183 diffynnydd am ddigwyddiadau anabledd.
- Yn 2007-08, arweiniodd 77% o achosion at euogfarnu.
- Yn 2007-08, roedd y gyfradd pledion euog yn 72%.
- Roedd rhyddfarnau yn gyfrifol am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus na materion gyda dioddefwyr, yn debyg i ddigwyddiadau hiliol a chrefyddol a throseddau homoffobig a thrawsffobig. Dynion oedd 82% o'r diffynyddion a erlynwyd.
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin. Roedd bwrgleriaeth, dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn hefyd yn gyffredin.
- Yn 2007-08, nodwyd bod 83% o ddiffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

## Trais yn y cartref - casgliadau allweddol

- Yn y tair blynedd yn diweddu ym Mawrth 2008, erlynwyd dros 170,000 diffynnydd am drais yn y cartref;
- Dynion oedd 94% o'r diffynyddion yn 2007-08 (dim ond 1% yn llai nag yn 2006-07);
- Menywod oedd 86% o ddioddefwyr yn 2007-08 (dim ond 1% yn fwy nag yn 2006-07);
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion trais yn y cartref a gyhuddwyd[1] o 62% yn 2006-07 i 65% yn 2007-08;
- Cwympodd erlyniadau aflwyddiannus o 40% yn 2005-06 i 31% yn 2007-08;
- Bu cynnydd mewn pledion euog o 58% yn 2006-07 i 62% yn 2007-08;
- Roedd canlyniadau aflwyddiannus oherwydd materion gyda dioddefwyr yn gyfrifol am 17% o bob canlyniad trais yn y cartref yn 2006-07 gan ostwng i lai nag 16% yn 2007-08.

[1] Y mae data ar gyhuddo ar gael o 2006-07 yn unig

# 2 Cyflwyniad

Roedd cofnodion troseddau casineb ar y CPS ar gyfer 2007-08 yn cynnwys troseddau casineb hiliol a chrefyddol, troseddau homoffobig a thrawsffobig, digwyddiadau anabledd a thrais yn y cartref. Mae diogelwch eiddo a diogelwch personol, a'r hawl i fyw yn rhydd rhag ofn troseddau, yn hawliau dynol sylfaenol ac maent yn ganolog i flaenoriaethau pobl. Mae teimlo'n anniogel a bod yn anniogel yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles pobl a gall wneud iddynt deimlo ar eu pen eu hunain ac yn methu cymryd rhan yn eu cymunedau yn gymdeithasol ac economaidd. Rydym eisiau i ddioddefwyr troseddau casineb, eu teuluoedd, cymunedau a'r cyhoedd, fod yn hyderus bod y CPS yn deall natur ddifrifol troseddau yn eu herbyn.

Fe ddaw rhan o'r sicrwydd hwn trwy fod yn glir am ein perfformiad wrth erlyn trosedd casineb. Hyd at eleni, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd am ei berfformiad ar drais yn y cartref, trosedd casineb hiliol a chrefyddol a throsedd casineb homoffobig a thrawsffobig mewn nifer o ffyrdd. Cyhoeddwyd data am droseddau hiliol yn yr adroddiad Cynllun Monitro Digwyddiadau Hiliol am 7 mlynedd ac, yn fwy diweddar, roedd yn cynnwys data am droseddau crefyddol.[2] Cyhoeddwyd perfformiad ym maes trais yn y cartref ar ffurf 'cipolwg' blynyddol ar ddata trais yn y cartref am fis penodol, ac yn 2007 fe ryddhaodd y CPS wybodaeth am berfformiad ar erlyn trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig ar ffurf datganiad i'r wasg.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn gwybodaeth ynghyd am berfformiad y CPS wrth erlyn holl linynnau trosedd casineb. Ble bo modd, bydd perfformiad 2007-08 wrth erlyn trosedd casineb hiliol a chrefyddol a throsedd homoffobig a thrawsffobig yn cael ei gymharu â pherfformiad yn ystod 2006-07. Mae trosedd casineb tuag at bobl anabl yn cael ei gynnwys am y tro cyntaf, ar sail gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y flwyddyn 2007-08 yn unig.

Mae'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2008, yn rhoi'r fframwaith ar gyfer cydgysylltu polisi a pherfformiad y CPS yn effeithiol ar drais yn y cartref a throseddau eraill trais yn erbyn menywod, ac mae'n symud mesur y perfformiad wrth erlyn trais yn y cartref i'r dangosydd newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod. Er mwyn dechrau ein hadrodd blynyddol yn unol â'r strategaeth hon, ac osgoi dyblygu gwybodaeth mewn adroddiadau, mae dadansoddiad llawn o wybodaeth ar drais yn y cartref i'w gael yn adroddiad Trais yn erbyn Menywod y CPS, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad presennol.

## Trosedd Casineb – cyd-destun ehangach y llywodraeth

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod trais difrifol yn gallu bod yn un o brif achosion anghydraddoldeb ac yn ganlyniad iddo; mae trosedd casineb yn benodol yn cael effaith anghymesur ar fenywod[3] a grwpiau lleiafrifol.[4] Wrth i ni ganolbwyntio ar wella perfformiad, monitro ac adrodd ym maes trosedd casineb, rydym yn sicrhau bod y CPS yn chwarae ei ran i gyflawni Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 23 – Gwneud cymunedau yn fwy diogel.

Mae'r CPS hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y llywodraeth i gyflawni PSA 24 – i gyflwyno System Cyfiawnder Troseddol (CJS) sy'n fwy effeithiol, clir ac ymatebol i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn yn ceisio hybu hyder cyffredinol y cyhoedd yn nhegwch ac effeithiolrwydd y CJS trwy sefydlu gwelliannau yn y ffordd y bydd y CJS yn ymdrin â throsedd trwy wasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol, a gwell gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion a grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME).

[2] Y Cynllun Monitro Digwyddiadau Hiliol (adroddiad RIMS)
[3] Troseddau trais yn y cartref yw mwyafrif y troseddau casineb ac yn bennaf fe'u cyflawnir gan ddynion yn erbyn menywod.
[4] Iganski (2008)

Fe wyddom fod achosion trosedd casineb yn dioddef lefelau uwch o athreuliad oherwydd anawsterau gyda dioddefwyr a thystion. Dyna pam y bydd ein holl ddatganiadau polisi cyhoeddus yn disgrifio'n glir sut byddwn yn mynd ati i gefnogi dioddefwyr a thystion mewn achosion trosedd casineb. Rydym wedi gweithio hefyd i gryfhau ein prosesau a'n gweithgareddau ymwneud â'r gymuned. Sefydlwyd paneli craffu ar drosedd casineb sy'n edrych ar y ffordd y bu'r CPS yn ymdrin ag achosion diweddar o droseddau casineb. Byddwn yn defnyddio'r paneli i hysbysu sut byddwn yn gwella canlyniadau erlyn a'r ffordd y byddwn yn ymdrin ag achosion yn gyffredinol.

Mae'r Paneli Craffu ar Drosedd Casineb yn cynnwys y CPS, rhanddeiliaid cymunedol, a hwylysydd annibynnol. Fe ddaw'r rhanddeiliaid cymunedol o grwpiau cymunedol sydd â phrofiad uniongyrchol o drosedd casineb. Mae'r paneli yn tanlinellu ein hymrwymiad i fod yn agored ac eglur wrth wneud penderfyniadau. Byddant yn ystyried y pethau a aeth yn dda a'r pethau oedd ddim cystal, ac, a oes unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol.

Rydym hefyd wedi sefydlu paneli Ymwneud â'r Gymuned. Mae'r rhain yn fwy rhanbarthol ac yn canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar fusnes, perfformiad a strategaeth y CPS. I raddau helaeth iawn rydym yn ystyried bod gan y Paneli Ymwneud â'r Gymuned rôl bwysig yn monitro a gwella perfformiad y CPS.

## Race for Justice

Mae'r CPS yn cyfrannu at gyflwyno Race for Justice (RFJ), sef Strategaeth Trosedd Casineb y Twrnai Cyffredinol sy'n derbyn cefnogaeth yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae nifer o linynnau gwaith yn eu lle, gan gynnwys datblygu safonau galwedigaethol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio ym maes trosedd casineb, cyflwyno cyfleuster adrodd ar lein am drosedd casineb, gweithio gyda'r pwyllgor triniaeth gyfartal yn y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol a gwaith gydag adrannau eraill y llywodraeth i godi ymwybyddiaeth a gwella'r ffordd y cofnodir digwyddiadau casineb mewn ysgolion ac yn y gymuned leol. Mae bwrdd cyflwyno sy'n cynnwys swyddogion ar draws y CJS a grŵp ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau cefnogi dioddefwyr yn goruchwylio'r ffordd y gweithredir yr argymhellion.

## Trosedd casineb - cyd-destun y CPS

Mae'r CPS yn gweld bod llwyddo i erlyn troseddau casineb yn effeithiol yn flaenoriaeth uchel sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ei nodau corfforaethol: cryfhau'r broses erlyn; hyrwyddo cyfiawnder a hawliau dioddefwyr; ac ennyn hyder yn y cymunedau a wasanaethwn. Mae erlyn trosedd casineb yn llwyddiannus hefyd yn ganolog o ran cyflawni nodau ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

## Fframwaith rheoli perfformiad

O 2008-09 bydd trais yn y cartref yn symud oddi wrth Droseddau Casineb i gael ei reoli dan y Strategaeth Casineb yn erbyn Menywod (VAW), gyda Dangosydd VAW penodol. Mae gan y Dangosydd VAW darged cyffredinol sef gostwng erlyniadau aflwyddiannus i 29% erbyn Ebrill 2009; gyda tharged ar wahân o 28% ar gyfer trais yn y cartref a throseddau rhywiol a 41% ar gyfer treisio. Yn 2009-2010 bydd targed trais yn y cartref yn gostwng i 26% o ganlyniadau aflwyddiannus.

Un targed sydd gan y Dangosydd Trosedd Casineb ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus, sef 18% wedi'i gymhwyso i bob llinyn trosedd casineb cyfredol (hiliol, crefyddol, homoffobig a throseddau casineb at bobl anabl). Yn 2009-10 bydd y targed hwn yn gostwng i 17% o ganlyniadau aflwyddiannus. Yn 2010-11 bydd yn gostwng ymhellach i 16%.

Mae data am erlyniadau ar gyfer pob un o 42 Rhanbarth y gwasanaeth i'w gael yn Atodiad 1, tudalen 43 yr adroddiad hwn. Mae rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i'w chael ar dudalen 47.

# 3 Casgliadau allweddol trosedd casineb

Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd am ei berfformiad mewn perthynas ag erlyn troseddau casineb fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthol y CPS. Mae troseddau casineb yn cynnwys troseddau wedi'u hysgogi gan hil a chrefydd, troseddau homoffobig a thrawsffobig, a throseddau wedi'u hysgogi gan anabledd unigolyn. Yn ogystal, hyd at Fawrth 2008 bu troseddau trais yn y cartref hefyd yn cael eu trin fel troseddau casineb, ond ers Ebrill 2008 maent bellach yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW), gyda Dangosydd VAW newydd. Mae data perfformiad am droseddau casineb yn cael ei gofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass, a'i dynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass.


Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu ar ôl treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial a gwrthod achosion oherwydd nad oes achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

Cyflwynwyd cyhuddo diffynyddion yn statudol gan y CPS yn llawn yn Ebrill 2006. Yn y ddwy flynedd yn dilyn y dyddiad hwnnw cafodd 158,000 o achosion y nodwyd eu bod yn ymwneud â throseddau casineb eu cyfeirio at y CPS am benderfyniad cyhuddo. Mae'r tabl a'r siart isod (1) yn dangos bod dros 100,000 o'r rhain, neu 65%, wedi'u cyhuddo yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd.

Cododd cyfran yr achosion a gyhuddwyd o 62.6% o achosion casineb a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006-07 i 66.5% yn 2007-08. Adroddir am gyfran yr achosion a gyhuddwyd o fewn pob llinyn casineb yn adran berthnasol yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo yn amrywio ar draws y llinynnau. Yn 2007-08, cyhuddwyd 72.8% o droseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol o gymharu â 64.6% o droseddau homoffobig a 69% o ddigwyddiadau anabledd.

**Tabl 1:** **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo***





| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 45,347 | 62.6% | 57,175 | 66.5% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 1,084 | 1.5% | 660 | 0.8% |
| No prosecution | 21,059 | 29.1% | 22,861 | 26.6% |
| Pob penderfyniad arall | 4,971 | 6.9% | 5,336 | 6.2% |
| Cyfanswm | 72,461 | | 86,032 | |

*Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2008

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 200,000 diffynnydd am droseddau casineb. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 62% yn 2005-06 i 71% yn 2007-08.

**Tabl 2:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 36,722 | 62.0% | 47,004 | 67.2% | 55,294 | 70.9% |
| Aflwyddiannus | 22,528 | 38.0% | 22,892 | 32.8% | 22,711 | 29.1% |
| Cyfanswm | 59,250 | | 69,896 | | 78,005 | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn dadansoddi canlyniadau erlyniadau yn fanwl ar gyfer troseddau casineb yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 59% i 63%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 71% at ei gilydd yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, a chyda therfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 26% i lai na 23%.


Yn 2007-08 y targed oedd gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar gyfer trosedd casineb i 28% erbyn pedwerydd chwarter y flwyddyn. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed hwn gan gyrraedd 27.6% yn y pedwerydd chwarter. O fewn y targed cyffredinol ar gyfer trosedd casineb yr oedd is-darged ar wahân ar gyfer pob llinyn. Ar gyfer trais yn y cartref y targed oedd 30%, ac aethpwyd y tu hwnt i hwnnw yn y chwarter olaf hefyd. Ar gyfer holl linynnau eraill trosedd casineb, y targed oedd 20%. Roedd perfformiad ar gyfer troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol y tu hwnt i'r targed hwn yn y chwarter olaf, ar 19.7%; felly hefyd y perfformiad ar gyfer digwyddiadau anabledd, ar 16.9%. Ni lwyddodd y perfformiad ar gyfer trosedd homoffobig i gyrraedd y targed, gan gyrraedd 22.6% yn y chwarter olaf.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

**Euogfarnau**




**Canlyniadau aflwyddiannus**





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 849 | 1.2% | 966 | 1.2% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 220 | 0.3% | 200 | 0.3% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 17,859 | 25.6% | 17,583 | 22.5% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *8,681* | *12.4%* | *9,530* | *12.2%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 2,821 | 4.0% | 2,902 | 3.7% |
| Dim achos i'w ateb | 364 | 0.5% | 326 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 127 | 0.2% | 125 | 0.2% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 652 | 0.9% | 609 | 0.8% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 22,892 | 32.8% | 22,711 | 29.1% |
| Ple euog | 41,044 | 58.7% | 48,767 | 62.5% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 5,785 | 8.3% | 6,384 | 8.2% |
| Profwyd yn absenoldeb | 175 | 0.3% | 143 | 0.2% |
| Euogfarnau | 47,004 | 67.2% | 55,294 | 70.9% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 69,896 | | 78,005 | |

## Erlyniadau yn ôl math o drosedd casineb

Mae'r tablau a'r siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau yn ôl math o drosedd casineb o 2005-06 i 2007-08. Trais yn y cartref oedd cyfran fwyaf y cyfanswm ar 84% yn 2005-06 ac 82% yn 2007-08. Dechreuwyd casglu data ar gyfer digwyddiadau anabledd yn Ebrill 2007.

**Tabl 4:** **Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Math o Drosedd Casineb**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Volume | % |
| Trais yn y Cartref | 49,782 | 84.0% | 57,361 | 82.1% | 63,819 | 81.8% |
| Hil a Chrefyddol | 8,868 | 15.0% | 11,713 | 16.8% | 13,008 | 16.7% |
| Homoffobig | 600 | 1.0% | 822 | 1.2% | 995 | 1.3% |
| Digwyddiad Anabledd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 183 | 0.2% |
| Cyfanswm | 59,250 | | 69,896 | | 78,005 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Parhaodd y cyfrannau o fewn pob categori yn debyg o 2005-06 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 4.3% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 35.2% am resymau tystiolaethol; 7.7% oherwydd budd y cyhoedd; roedd 32.9% yn methu parhau, ac 20% am resymau eraill.

Mae tabl 5 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl oedd yn parhau i fod y categori unigol mwyaf, a phrin fu'r newid dros gyfnod yr adolygiad ar 19% i 20%, tra bu cynnydd graddol yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr fethu mynychu ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad. Parhaodd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol yn sefydlog, ar 55% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus.

**Tabl 5: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**



| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 4,331 | 19.2% | 4,616 | 20.2% | 4,387 | 19.3% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 1,734 | 7.7% | 2,132 | 9.3% | 2,670 | 11.8% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 2,723 | 12.1% | 3,319 | 14.5% | 3,597 | 15.8% |
| Rhybuddiad | 346 | 1.5% | 355 | 1.6% | 291 | 1.3% |
| Rhwymo | 3,190 | 14.2% | 2,111 | 9.2% | 1,475 | 6.5% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *12,324* | *54.7%* | *12,533* | *54.7%* | *12,420* | *54.7%* |
| Pob Rheswn Arall | 9,262 | 41.1% | 9,510 | 41.5% | 9,325 | 41.1% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 942 | 4.2% | 849 | 3.7% | 966 | 4.3% |
| Cyfanswm | 22,528 | | 22,892 | | 22,711 | |


Rhoddir dadansoddiad o'r rhesymau ar gyfer yr holl linynnau unigol o fewn trosedd casineb yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad hwn. Y mae gwahaniaethau clir yn y materion allweddol i ddioddefwyr ar draws y llinynnau. Mae nifer uchel y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â thrais yn y cartref yn effeithio ar y darlun ar gyfer canlyniadau trosedd casineb yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae materion sy'n ymwneud â dioddefwyr yn elfen lai amlwg wrth edrych ar ganlyniadau aflwyddiannus ar gyfer llinynnau eraill trosedd casineb, ble'r oedd rhyddfarnu ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll yn gyfrifol am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus.

Mae tabl a siart 6 yn dangos niferoedd a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Er bod niferoedd y rhai aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu, o 8,788 yn 2005-06 i 10,654 yn 2007-08, bu ychydig o ostyngiad mewn cyfrannedd â chyfanswm y canlyniadau trosedd casineb, o 15% i lai na 14%. Cwympodd y canlyniadau aflwyddiannus o 38% yn 2005-06 i 29% yn 2007-08.

Unwaith yn rhagor, roedd materion yn ymwneud â dioddefwyr yn ddigon niferus ar gyfer achosion trais yn y cartref nes pwysoli'r darlun ar gyfer trosedd casineb at ei gilydd. Roedd materion yn ymwneud â dioddefwyr yn gyfrifol am 16.9% o ganlyniadau trais yn y cartref yn 2005-06, gan ostwng i 15.7% yn 2007-08.

**Tabl 6: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob Canlyniad**



| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr* | *8,788* | *14.8%* | *10,067* | *14.4%* | *10,654* | *13.7%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 22,528 | 38.0% | 22,892 | 32.8% | 22,711 | 29.1% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 36,722 | 62.0% | 47,004 | 67.2% | 55,294 | 70.9% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **59,250** | | **69,896** | | **78,005** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 67% o erlyniadau trosedd casineb yn 2007-08. Roedd difrod troseddol a throseddau trefn gyhoeddus yn gyfrifol am 11% a 12% pellach, yn y drefn honno. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 68% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 12% yn rhai difrod troseddol, a 12% yn rhai trefn gyhoeddus. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn is ar 63% a difrod troseddol yn is ar 9%, tra oedd trefn gyhoeddus yn uwch ar 19%. Dynion oedd 93% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol oedd eu prif drosedd. Mewn achosion trais yn y cartref, troseddau corfforol oedd y mwyaf niferus ar gyfer dynion a menywod, ar 73% a 72%, yn y drefn honno. Nodwyd patrwm tebyg mewn achosion o ddigwyddiadau anabledd, gyda dynion a menywod yn cofnodi 53% a 56% yn y drefn honno ar gyfer troseddau corfforol; er bod cyfran hefyd o droseddau bwrgleriaeth (9%) a throseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn (8%). Rhannwyd troseddau mewn achosion gwaethygol hiliol a chrefyddol ac achosion homoffobig rhwng troseddau corfforol (42% a 50%) a threfn gyhoeddus (42% a 34%) yn y drefn honno ar gyfer pob diffynnydd.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl

Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, y mae cyflawnrwydd a dibynadwyedd y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Codi Dedfrydau

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ond eto mae'n parhau i gael ei datblygu. Y mae codi dedfrydau yn gymwys ar gyfer trosedd a ysgogir gan hil neu grefydd, trosedd homoffobig, a digwyddiadau anabledd yn unig. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Mae cyfran y dynion a erlynwyd wedi parhau fwy neu lai yr un fath ar 93% yn 2005-06 a 92% yn 2007-08. Yn y cyfnod olaf, dynion oedd 94% o'r diffynyddion mewn erlyniadau trais yn y cartref, a dynion oedd 85% mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol, 87% mewn troseddau homoffobig ac 82% mewn troseddau anabledd.

**Tabl 7: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 3,903 | 6.6% | 4,843 | 6.9% | 5,907 | 7.6% |
| Dynion | 55,341 | 93.4% | 65,041 | 93.1% | 72,084 | 92.4% |
| Ni wyddys | 6 | 0.0% | 12 | 0.0% | 14 | 0.0% |
| Cyfanswm | 59,250 | | 69,896 | | 78,005 | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 78% o ddiffynyddion trosedd casineb yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 81% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 5% pellach yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

## Data cydraddoldeb arall


Casglwyd data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**

Mae tabl 8 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am dddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd menywod, ar 77% yn 2006-07 a 78% yn 2007-08. Ble nodwyd rhyw, roedd 86% o ddioddefwyr trais yn y cartref yn fenywod, tra oedd 38% yn fenywod mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol, roedd 35% yn fenywod mewn troseddau homoffobig, a 48% yn fenywod mewn digwyddiadau anabledd.

**Tabl 8:** **Rhyw Dioddefwyr***




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 7,901 | 26.6% | 19,649 | 34.1% |
| Dynion | 2,374 | 8.0% | 5,580 | 9.7% |
| Ni wyddys | 19,378 | 65.3% | 32,348 | 56.2% |
| Cyfanswm | 29,653 | | 57,577 | |

*Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer pob dioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, ac mae 2007-08 yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

## Data cydraddoldeb arall

Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwyswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Casineb

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol ar drosedd casineb'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Fodd bynnag, cyfeiriwyd ychydig dan 22% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, tra bo 78% yn destun 'cyfeirio arall'.

# 4 Trosedd casineb hiliol a chrefyddol

## Cefndir polisi a gwaith yn y dyfodol

Yng Gorffennaf 2003 fe gyhoeddwyd argraffiad cyntaf datganiad polisi cyhoeddus y CPS ar droseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol a chyhoeddwyd y canllaw ar gyfer erlynwyr. Ers hynny bu nifer o ddatblygiadau yn y gyfraith, a newidiadau i arferion a gweithdrefnau'r CPS – yn enwedig yn y ffordd y byddwn yn delio â dioddefwyr a thystion ac ymwneud â'r gymuned. Mae'r ail argraffiadau, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2008 yn adlewyrchu'r datblygiadau hyn. Y mae hanfod y Polisi a'r Canllaw, fodd bynnag, yn parhau'n ddigyfnewid, a dyma'r rheswm pam y cafodd yr ail argraffiadau eu 'diweddaru' yn hytrach na'u hailysgrifennu yn llwyr.

Wrth baratoi'r ail argraffiadau, buom yn ymgynghori â phobl o gymunedau Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd a rhoddwyd ystyriaeth i'w sylwadau. Mae eu cyfraniadau wedi bod o gymorth i ni ddod i well dealltwriaeth o'r pethau sy'n bwysig iddynt ac y mae angen i ni wybod amdanynt wrth ymdrin â throsedd hiliol a chrefyddol.

Lansiwyd adroddiad ymchwil gan y CPS i drosedd gwrth-Semitig mewn digwyddiad cyoheddus ym mis Mai 2008. Pwrpas yr adroddiad oedd ymateb i'r adroddiad ar Wrth-Semitiaeth gan y Grŵp Seneddol Holl-bleidiol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2006 a wnaeth y ddau argymhelliad canlynol i'r CPS: bod y CPS yn ymchwilio i'r rhesymau dros nifer isel yr erlyniadau ac yn adrodd yn ôl i'r Senedd; bod y CPS yn cynnal adolygiad o achosion ble dwynwyd erlyniadau am ysgogi casineb hiliol, er mwyn gweld pa wersi y gellir eu dysgu.

Bu'r CPS yn ymchwilio i adroddiadau am ddigwyddiadau gwrth-semitig a chanlyniadau'r erlyniadau dilynol, ac arweiniodd hyn at gynhyrchu cynllun gweithredu ar drosedd gwrth-semitig, sy'n pennu'r camau canlynol i'r CPS eu dilyn:

- darparu gwell arweiniad i erlynwyr i'w helpu i adnabod a chyfeirio achosion priodol at Adran Wrthderfysgaeth y CPS;
- sicrhau ymdriniaeth weithredol wrth weithio gyda'r heddlu fel y gellir llunio'r achosion cryfaf posib;
- gwella lefel y gefnogaeth i ddioddefwyr trosedd gwrth-semitig, ac annog dioddefwyr i gefnogi erlyniad; a
- chynyddu a gwella ymwneud â'r gymuned.

Bellach cafodd y Cynllun Gweithredu Trosedd Gwrth-Semitig ei gylchredeg at Grwpiau Cymunedol Iddewig a'r Pwyllgor Seneddol yn Erbyn Gwrth-Semitiaeth er mwyn casglu gwybodaeth a sylwadau ganddynt. Mae'r CPS yn edrych ymlaen at barhau â'r ddialog gyda chynrychiolwyr cymunedau Iddewig a'i bartneriaid cyfiawnder troseddol ynghylch sut i fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth, a chynyddu hyder y cyhoedd na fyddwn yn goddef troseddau gwrth-semitig.

Bydd y CPS yn datblygu hyfforddiant arbenigol ar droseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol fel rhan o ail gam y Rhaglen Erlyn Weithredol (PPP). Rhagwelir y bydd y gwaith o ddechrau datblygu'r rhaglen hyfforddi hon yn dechrau yn ystod trydydd chwarter 2008.

### Astudiaeth achos digwyddiad crefyddol

Y ddioddefwraig oedd menyw 17 oed sy'n gwisgo Hijab (sgarff dros ei phen sy'n cuddio ei gwallt a'i gwddf) a Jilbab (dilledyn allanol sy'n ei gorchuddio o'i chorun i'w sawdl). Ar adegau, fe fydd hi'n gwisgo Niqab hefyd (sef gorchudd wyneb sy'n gorchuddio rhan isaf ei hwyneb, hyd at ei llygaid). Ar saith achlysur wrth gerdded i'r ysgol cwynodd y ddioddefwraig am gam-drin geiriol gan yrrwr cerbyd penodol a nodwyd, a oedd ar bob achlysur yn gweiddi sarhad crefyddol a hiliol. Ar ôl cael ei arestio, cafodd y diffynnydd ei adnabod trwy gyfrwng trefn adnabod fideo a thrwy gysylltiad â'r car. Cafodd ei dditio am drosedd o aflonyddu gwaethygol crefyddol. Roedd y diffynnydd yn gwadu unrhyw gam-drin ond yn derbyn mai ef oedd gyrrwr y car.

Cyn y treial trafodwyd gyda'r ddioddefwraig y mater sensitif o effaith ôl-ddilynol ar y dystiolaeth petai'r ddioddefwraig yn dymuno rhoi tystiolaeth tra bo'r gorchudd dros ei hwyneb. Dyma oedd y pryder: yn niffyg unrhyw dystiolaeth ategol, y gallai fod yna gwtogi ar allu'r rheithgor i asesu geirwiredd y tyst o gymharu â'r diffynnydd oherwydd na fyddent yn gallu edrych ar fynegiant ei hwyneb. Esboniwyd hyn wrth y ddioddefwraig yna gofynnwyd iddi am ei barn a dewisodd hi roi tystiolaeth heb ddefnyddio ei gorchudd wyneb.

Gwnaed cais am fesurau arbennig. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio sgriniau fel y gallai'r ddioddefwraig roi tystiolaeth yn gyfforddus heb embaras na thrallod pellach. Penodwyd Swyddog Gofal Tystion ar gyfer yr achos, a fu'n cysylltu'n rheolaidd â'r ddioddefwraig ar bob cam hyd at ddyddiad y treial ac a roddodd wybod i'r ddioddefwraig am y ddedfryd wedyn.

Llediodd y diffynnydd yn ddi-euog. Ar ôl y treial, dyfarnodd y rheithgor ei fod yn euog a chafodd y diffynydd ddedfryd o 9 mis dan glo.

### Astudiaeth achos digwyddiad hiliol

Digwyddiad ar fws oedd hwn, ble'r oedd y diffynnydd gwyn yn deithiwr a fu mewn ffrae gyda gyrrwr y bws, a oedd o dras Affro/Caribïaidd. Fe wnaeth y diffynnydd daro'r sgrin o amgylch y gyrrwr ac yna pwnio'r gyrrwr yn ei wyneb nifer o weithiau ar ôl gweiddi sarhad hynod o hiliol.

Llediodd y diffynnydd yn euog yn y Llys Ynadon. Er mwyn cydnabod difrifoldeb yr elfen waethygol hiliol, traddodwyd yr achos i Lys y Goron ar gyfer dedfrydu. Cafodd y diffynnydd ddedfryd o 12 mis dan glo am Wir Niwed Corfforol Gwaethygol Hiliol a Difrod Troseddol.

# 5 Casgliadau allweddol trosedd gwaethygol hiliol a chrefyddol


Er Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn adrodd ar erlyn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthau'r CPS. Cynt, bu data am droseddau ag ysgogiad crefyddol neu hiliol yn cael eu cofnodi â llaw drwy'r Cynllun Monitro Digwyddiadau Hiliol (RIMS), ond mae'r ffigurau mwy diweddar a gynhwysir yn yr adroddiad presennol wedi cael eu cofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass, ac wedi'u tynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass. Gyda Compass mae mwy o gysondeb yn yr arferion cofnodi, a chydymffurfio ehangach gyda'r gofyniad i nodi a chofnodi'r troseddau. Felly, ystyrir y ffigurau presennol yn fwy cyflawn, ac yn fwy dibynadwy, na'r rhai a gyhoeddwyd cynt mewn adroddiadau blynyddol RIMS.

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu ar ôl treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

O ran y CPS yn penderfynu y dylai diffynnydd gael ei gyhuddo, cododd y ffigur o 67.3% o droseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2006-07 i 72.8% yn 2007-08.

**Tabl 1: Penderfyniadau Cyn Cyhuddo**





| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 7,886 | 67.3% | 9,115 | 72.8% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 274 | 2.3% | 134 | 1.1% |
| Dim erlyniad | 2,704 | 23.1% | 2,426 | 19.4% |
| Pob penderfyniad arall | 856 | 7.3% | 850 | 6.8% |
| Cyfanswm | 11,720 | | 12,525 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2008, erlynwyd dros 33,500 diffynnydd am droseddau yn ymwneud ag elfennau gwaethygol hiliol neu grefyddol. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, ac yn dangos i euogfarnau godi o 74% yn 2005-06 i 80% yn 2007-08.

**Tabl 2: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 6,577 | 74.2% | 9,017 | 77.0% | 10,398 | 79.9% |
| Aflwyddiannus | 2,291 | 25.8% | 2,696 | 23.0% | 2,610 | 20.1% |
| Cyfanswm | 8,868 | | 11,713 | | 13,008 | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer troseddau ag ysgogiad hiliol neu grefyddol yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 64% i ychydig dan 67%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 80% yn ei chyfanrwydd yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o bron i 15% i lai na 13%.


Yn 2007-08 y targed oedd gostwng troseddau ag ysgogiad hiliol neu grefyddol a oedd yn aflwyddiannus i 20%. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed gan gyrraedd 19.7% yn chwarter olaf y flwyddyn.

## Tabl 3: Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau aflwyddiannus





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 153 | 1.3% | 182 | 1.4% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 79 | 0.7% | 53 | 0.4% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 1,700 | 14.5% | 1,631 | 12.5% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *887* | *7.6%* | *942* | *7.2%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 476 | 4.1% | 478 | 3.7% |
| Dim achos i'w ateb | 78 | 0.7% | 66 | 0.5% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 36 | 0.3% | 40 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 174 | 1.5% | 160 | 1.2% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,696** | **23.0%** | **2,610** | **20.1%** |
| Ple euog | 7,546 | 64.4% | 8,648 | 66.5% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 1,415 | 12.1% | 1,708 | 13.1% |
| Profwyd yn absenoldeb | 56 | 0.5% | 42 | 0.3% |
| **Euogfarnau** | **9,017** | **77.0%** | **10,398** | **79.9%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **11,713** | | **13,008** | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn dangos rhai gwahaniaethau o 2005-06 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 7% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol (yn debyg i 2005-06); 33.8% am resymau tystiolaethol, wedi gostwng o 39%; 10.7% er budd y cyhoedd (i fyny o 7.9%); roedd 21.1% yn methu parhau (i fyny o 16.7%), ac roedd 27.4% am resymau eraill, bron i 2 bwynt canran yn is nag yn 2005-06. Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble methodd dioddefwr fynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn yn ymwneud â ddioddewyr, fe wnaeth dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl gynyddu o 5% i 7% yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd cynnydd amlwg hefyd yn y gyfran a fethodd oherwydd nad oedd y dioddefwr wedi mynychu (o 6% i 9%) ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad (o 4%-7%). Bu gostyngiad mewn rhwymo dros y cyfnod o 8% i 6%. Gwelwyd cynnydd yn y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol (sef materion dioddefwyr a thystion ac achosion ble'r ystyrid rhybuddiad neu rwymo yn addas) o 24% i 30% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Roedd rhyddfarnau (21%) ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll (11%) yn gyfrifol am ragor o ganlyniadau aflwyddiannus, na materion sy'n ymwneud â dioddefwyr, fel ag ar gyfer digwyddiadau anabledd a throseddau homoffobig.

**Tabl 4: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 107 | 4.7% | 161 | 6.0% | 170 | 6.5% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 131 | 5.7% | 205 | 7.6% | 240 | 9.2% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 100 | 4.4% | 164 | 6.1% | 176 | 6.7% |
| Rhybuddiad | 45 | 2.0% | 75 | 2.8% | 43 | 1.6% |
| Rhwymo | 177 | 7.7% | 180 | 6.7% | 143 | 5.5% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *560* | *24.4%* | *785* | *29.1%* | *772* | *29.6%* |
| Pob Rheswn Arall | 1,564 | 68.3% | 1,758 | 65.2% | 1656 | 63.4% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 167 | 7.3% | 153 | 5.7% | 182 | 7.0% |
| Cyfanswm | 2,291 | | 2,696 | | 2,610 | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Bu cynnydd yn nifer a chyfran y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 338 (4%) yn 2005-06 i 586 (5%) yn 2007-08. Ond cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus, o 26% yn 2005-06 i 20% yn 2007-08.

**Tabl 5: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad**




**% Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr* | *338* | *3.8%* | *530* | *4.5%* | *586* | *4.5%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,291 | 25.8% | 2,696 | 23.0% | 2,610 | 20.1% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 6,577 | 74.2% | 9,017 | 77.0% | 10,398 | 79.9% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 8,868 | | 11,713 | | 13,008 | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, gan gynrychioli 84% (42% a 42% yn y drefn honno) o erlyniadau troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn 2007-08. Roedd difrod troseddol yn gyfrifol am 6% arall. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gydag ychydig dan 42% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol ac ychydig dros 42% yn rhai trefn gyhoeddus, a 6% pellach yn rhai difrod troseddol. Roedd patrwm fymryn yn wahanol ar gyfer menywod, gan fod troseddau corfforol yn uwch ar 47% a rhai trefn gyhoeddus a difrod troseddol ychydig yn is ar 41% a 5% yn y drefn honno. Dynion oedd 84% o'r diffynyddion oedd â phrif drosedd a gofnodwyd yn droseddau corfforol neu'n rhai trefn gyhoeddus.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl

Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Codi Dedfrydau


Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ond eto mae'n parhau i gael ei datblygu. Y mae codi dedfrydau yn gymwys ar gyfer trosedd a ysgogir gan hil neu grefydd, trosedd homoffobig, a digwyddiadau anabledd yn unig. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**
Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Mae cyfran y diffynyddion sy'n ddynion wedi parhau fwy neu lai'r un peth ar tua 85%.

**Tabl 6: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,264 | 14.3% | 1,792 | 15.3% | 1,970 | 15.1% |
| Dynion | 7,603 | 85.7% | 9,918 | 84.7% | 11,036 | 84.8% |
| Ni wyddys | 1 | 0.0% | 3 | 0.0% | 2 | 0.0% |
| Cyfanswm | 8,868 | | 11,713 | | 13,008 | |

## Ethnigrwydd

Cesglir data am ethnigrwydd diffynyddion gan y CPS yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 o gategorïau ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 76% o ddiffynyddion mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a bod 80% yng nghategori Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, ac ychydig dan 5% yn Ddu. Nid oedd 5% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.


## Data cydraddoldeb arall

Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**
Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd dynion, sef 72% yn 2006-07 a 68% yn 2007-08. Trais yn y cartref yw'r unig linyn o fewn troseddau casineb lle bo mwyafrif y dioddefwyr yn fenywod. Dynion yw mwyafrif y dioddefwyr yn yr holl droseddau casineb, heblaw am drais yn y cartref.

**Tabl 7: Rhyw Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 381 | 9.9% | 1,055 | 13.9% |
| Dynion | 966 | 25.1% | 2,278 | 30.0% |
| Ni wyddys | 2,501 | 65.0% | 4,250 | 56.0% |
| Cyfanswm | 3,848 | | 7,583 | |

## Data cydraddoldeb arall

Mae data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwyswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Gwaethygol Hiliol a Chrefyddol

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei datblygu hefyd. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol ar drosedd casineb'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Fodd bynnag cyfeiriwyd 18% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, tra bo 82% yn destun 'cyfeirio arall'.

# 6 Trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig

## Cefndir polisi a gwaith yn y dyfodol

Cafodd y Polisi ac Arweiniad ar gyfer Erlyn Achosion ag Elfen Homoffobig eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2002. Cafodd y ddwy ddogfen eu diweddaru a'u cyhoeddi ym mis Tachwedd 2007 er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a gweithdrefnau ers iddynt gael eu cyhoeddi yn wreiddiol a hefyd er mwyn iddynt gyd-fynd â'r Polisi ac Arweiniad ar gyfer Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2007.

Mae'r dogfennau yn darparu datganiad cyhoeddus eglur nad yw troseddau homoffobig a thrawsffobig yn dderbyniol a, lle bo modd, y byddant yn cael eu herlyn trwy'r llysoedd troseddol.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 ar 8 Mai 2008. Mae Adran 74 ac Atodlen 16 y Ddeddf yn gwneud newidiadau i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 er mwyn creu troseddau newydd o ysgogi casineb ar sail tueddfryd rhywiol. Mae'r troseddau yn ymdrin ag ymddygiad – sef geiriau neu ymddygiad – neu ddeunydd sy'n fygythiol ei natur ac a fwriedir i ysgogi casineb yn erbyn grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu tueddfryd rhywiol.

Gorfodir Adran 74 ac Atodlen 16 trwy Orchymyn a ddisgwylir yn yr hydref 2008 a bydd arweiniad yn cael ei baratoi a'i roi i erlynwyr.

### Astudiaeth Achos Homoffobig and thrawsffobig

Bu'r diffynnydd yn anfon llythyrau casineb homoffobig gan ddefnyddio llythrennau wedi'u torri o gylchgronau, at gwpl a oedd yn agored hoyw. Roedd y llythyrau yn hynod sarhaus ac yn cynnwys bygythiadau i ladd. Fe wnaeth un o'r cwpl gyflawni hunanladdiad ac roedd ei bartner o'r farn bod y llythyrau yn ffactor sylweddol a gyfrannodd at hynny.

Cafodd yr achos ei gynnal gan adfocad y Goron a derbynniodd y diffynnydd 18 mis am euogfarn o aflonyddu. Bu'r hyrwyddwr dros drosedd casineb homoffobig a'r uned gofal tystion yn cysylltu â'r dioddefwr yn rheolaidd. Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr achos drwy'r amser.

Bu'r CPS yn tynnu sylw'r llys at y darpariaethau dedfrydu perthnasol a bennir dan adran 146 CJA 2003. Treuliodd y Llys beth amser yn cyfeirio at y ffaith bod yr ysgogiad homoffobig yn ffactor gwaethygol ac na ddylai dinasyddion Swydd Lincoln orfod goddef aflonyddu o'r fath.

Darllenwyd datganiad personol y dioddefwr gan y dioddefwr yn y llys agored, gyda'i ganiatâd.

Cysylltodd y dioddefwr â'r CPS gan ddiolch am y modd sensitif y cafodd yr achos ei drin. Fe'i dyfynnwyd yn y wasg leol hefyd, yn dweud "The way the CPS and Lincolnshire Police have conducted this tragic case has been outstanding…I have been kept informed of every development and this has given me total confidence in the Criminal Justice system."

# 7 Casgliadau allweddol trosedd homoffobig a thrawsffobig


Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau homoffobig a thrawsffobig fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthau'r CPS. Tra ydym yn cydnabod natur benodol y troseddau hyn, o fewn yr adroddiad hwn bydd troseddau homoffobig a thrawsffobig yn cael eu grwpio dan y categori homoffobig. Mae data am droseddau homoffobia yn cael ei gofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass, ac yn cael ei dynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass.

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu ar ôl treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

Penderfynodd yr CPS y dylid cyhuddo diffynnydd mewn 61.5% o achosion trosedd homoffobig a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2006-07, gan godi i 64.6% yn 2007-08.

**Tabl 1:** **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo**





| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 504 | 61.5% | 758 | 64.6% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 23 | 2.8% | 14 | 1.2% |
| Dim erlyniad | 215 | 26.2% | 272 | 23.2% |
| Pob penderfyniad arall | 78 | 9.5% | 129 | 11.0% |
| Cyfanswm | 820 | | 1,173 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2008

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2008, cafodd mwy na 2,400 o ddiffynyddion eu herlyn am achosion yn ymwneud â homoffobia. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o dair blynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 71% yn 2005-06 i 78% yn 2007-08.

**Tabl 2: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 426 | 71.0% | 604 | 73.5% | 778 | 78.2% |
| Aflwyddiannus | 174 | 29.0% | 218 | 26.5% | 217 | 21.8% |
| Cyfanswm | 600 | | 822 | | 995 | |

Mae'r tabl a'r siatiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau homoffobig yn 2006-07 a 2007-08. Cododd pledion euog o 58% i 67%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu yn gyffredinol sef 78% yn 2007-08. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 17% i lai na 14%.


Yn 2007-08 y targed oedd gostwng achosion aflwyddiannus mewn achosion o droseddau a ysgogwyd gan homoffobia i 20%. Roedd y canlyniadau y tu allan i'r targed ar 22.6% yn y pedwerydd chwarter.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

### Euogfarnau



## Canlyniadau aflwyddiannus





| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 7 | 0.9% | 12 | 1.2% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 4 | 0.5% | 0 | 0.0% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | 136 | 16.5% | 137 | 13.8% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *64* | *7.8%* | *67* | *6.7%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 43 | 5.2% | 53 | 5.3% |
| Dim achos i'w ateb | 12 | 1.5% | 7 | 0.7% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 4 | 0.5% | 2 | 0.2% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 12 | 1.5% | 6 | 0.6% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 218 | 26.5% | 217 | 21.8% |
| Ple euog | 478 | 58.2% | 662 | 66.5% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 124 | 15.1% | 114 | 11.5% |
| Profwyd yn absenoldeb | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% |
| Euogfarnau | 604 | 73.5% | 778 | 78.2% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 822 | | 995 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn dangos rhai gwahaniaethau o 2005-06 i 2007-08. Yn 2007-08, roedd 5.5% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol, gyda fawr newid ers 2005-06; 40.1% am resymau tystiolaethol, sef cynnydd sylweddol o gymharu â 33.3% yn 2005-06; 11.1% er budd y cyhoedd, yn gynnydd o 8.6%; roedd 13.8% yn methu parhau, sef gwelliant o 20.7% yn y cyfnod cynharach, ac roedd 29.5% yn perthyn i resymau eraill, 2 bwynt canran yn is nag yn 2005-06. Mae dadansoddiad manylach i'w weld yn nhabl 4, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble methodd dioddefwr fynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, rhwymo yw'r categori unigol mwyaf, er i hynny gwympo dros y cyfnod dan sylw o 9% i 7%. Bu cwymp amlwg hefyd yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr dynnu cyhuddiadau yn ôl, o 6% i 2%, tra bo'r rhai a fethodd oherwydd na wnaeth y dioddefwr fynychu wedi codi o 6% i 9%. Mae'r gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol wedi aros yn sefydlog, ar tua 30% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Roedd rhyddfarnau (22%) ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll (15%) i gyfrif am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus, na materion sy'n ymwneud â dioddefwyr, fel gyda digwyddiadau anabledd a throseddau casineb hiliol a chrefyddol.

**Tabl 4: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 10 | 5.7% | 14 | 6.4% | 5 | 2.3% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 10 | 5.7% | 13 | 6.0% | 19 | 8.8% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 10 | 5.7% | 13 | 6.0% | 13 | 6.0% |
| Rhybuddiad | 5 | 2.9% | 6 | 2.8% | 13 | 6.0% |
| Rhwymo | 16 | 9.2% | 22 | 10.1% | 16 | 7.4% |
| *Cyfanswm Prif Resymau* | *51* | *29.3%* | *68* | *31.2%* | *66* | *30.4%* |
| Pob Rheswn Arall | 113 | 64.9% | 143 | 65.6% | 139 | 64.1% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 10 | 5.7% | 7 | 3.2% | 12 | 5.5% |
| **Cyfanswm** | **174** | | **218** | | **217** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Tra bo niferoedd y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu, o 30 yn 2005-06 i 37 yn 2007-08, gwelwyd cwymp ynddynt o ran cyfran, o 5% i lai na 4%. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o 29% yn 2005-06 i 22% yn 2007-08.

**Tabl 5: Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad**




**% Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr* | *30* | *5.0%* | *40* | *4.9%* | *37* | *3.7%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 174 | 29.0% | 218 | 26.5% | 217 | 21.8% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 426 | 71.0% | 604 | 73.5% | 778 | 78.2% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 600 | | 822 | | 995 | |

## Categori'r prif droseddry

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 50% o erlyniadau trosedd homoffobig yn 2007-08. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 6% a 34% arall yn y drefn honno. Cofodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 51% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 6% yn rhai difrod troseddol, a 33% yn rhai trefn gyhoeddus. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn is ar 45% a difrod troseddol fymryn yn is ar 5%, tra oedd trefn gyhoeddus yn uwch ar 40%. Dynion oedd 87% o'r diffynyddion ble nodwyd bod y prif drosedd yn un o drosedd corfforol.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl

Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Codi Dedfrydau


Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ond eto mae'n parhau i gael ei datblygu. Y mae codi dedfrydau yn gymwys ar gyfer trosedd a ysgogir gan hil neu grefydd, trosedd homoffobig, a digwyddiadau anabledd yn unig. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009 -2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**
Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Gwelwyd cyfran y diffynyddion sy'n ddynion yn gostwng ychydig o 90% yn 2005-06 i 87% yn 2007-08.

**Tabl 6: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 60 | 10.0% | 95 | 11.6% | 134 | 13.5% |
| Dynion | 540 | 90.0% | 727 | 88.4% | 861 | 86.5% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 600 | | 822 | | 995 | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â'r diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 76% o ddiffynyddion trosedd homoffobig yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a 79% yn perthyn i gategori Gwyn. Nodwyd bod ychydig dan 3% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 4% pellach yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.


## Data cydraddoldeb arall

Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**
Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Tynnir data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd dynion, ar 61% yn 2006-07 a 65% yn 2007-08.

**Tabl 7: Rhyw Dioddefwyr**




| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 43 | 14.6% | 103 | 16.7% |
| Dynion | 67 | 22.8% | 191 | 31.0% |
| Ni wyddys | 184 | 62.6% | 322 | 52.3% |
| Cyfanswm | 294 | | 616 | |

## Data cydraddoldeb arall

Bydd data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwyswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Bwriedir gwneud gwaith yn 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Homoffobigs

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, ni chofnodwyd bod yr un wedi'i gyfeirio at 'asiantaeth arbenigol'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Cofnodwyd bod 30% wedi'u cyfeirio at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, tra bo 70% yn destun 'cyfeirio arall'.

# 8 Trosedd casineb tuag at bobl anabl

Cyhoeddwyd Polisi'r CPS ar gyfer erlyn trosedd casineb tuag at bobl anabl yn Chwefror 2007. Bu'r CPS yn gweithio'n agos gyda phobl anabl eu hunain a sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl er mwyn datblygu'r datganiad polisi a'r arweiniad ar gyfer erlynwyr. Wedi iddo gael ei gyhoeddi, cyflwynwyd baner fonitro ar gyfer digwyddiadau anabledd yn rhan o system reoli achosion y CPS yn Ebrill 2007. Y mae'r CPS hefyd wedi mynd ati'n weithredol i godi ymwybyddiaeth o'r polisi newydd a monitro'r gofynion trwy gyfrwng ymgyrch bosteri a chardiau post gan godi ymwybyddiaeth trwy greu Rhwydwaith Cydgysylltwyr, hyfforddi erlynwyr ac adolygu'r systemau ar gyfer tynnu sylw at achosion a'u monitro.

Yn y dyfodol, bydd gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gefnogi Rhanbarthau i ddeall sut i adnabod a llunio achosion cadarn ym maes trosedd casineb tuag at bobl anabl, ar ffurf Arweiniad newydd a gweithio gyda Rhanbarthau i baratoi cynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r adolygiad arfaethedig ym maes trosedd casineb tuag at bobl anabl a fydd yn parhau tan 2011.

Dros y flwyddyn a aeth heibio, trwy ddadansoddi data am ddigwyddiadau anabledd gwelwyd heriau a diffygion yn nhrefn gofnodi'r CPS. Mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r materion hyn, ac rydym yn hyderus y gallwn gyflawni gwelliannau eglur o ran ansawdd data.

**Astudiaeth achos trosedd casineb tuag at bobl anabl**

Roedd dyn anabl mewn caffi rhyngrwyd ble cafodd ei fygwth a'i sarhau drosodd a throsodd ar sail ei anableddau. Fe wnaeth perchennog y caffi alw'r heddlu a rhoddodd y dioddefwr ddatganiad iddynt.

Cyhuddwyd y diffynnydd dan Adran 4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 a phlediodd yn euog ar unwaith. Sicrhaodd CPS Gogledd Swydd Efrog bod adran 146, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sy'n caniatáu ar gyfer codi dedfryd mewn achos o drosedd casineb tuag at bobl anabl, yn cael ei hystyried yn fuan ac y tynnwyd sylw'r llys at hyn ar y cam dedfrydu. Cyfeiriodd y llys yn benodol at waethygu ar sail anabledd wrth ddedfrydu. Cafodd y diffynnydd ddedfryd ohiriedig o 5 mis ar 12 mis o garchar, a rhoddwyd £100 o iawndal i'r dioddefwr.

# 9 Casgliadau allweddol digwyddiadau anabledd


Ers Ebrill 2007 bu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adrodd ar erlyn troseddau digwyddiadau anabledd fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthau'r CPS. Cofnodir data am droseddau yn ymwneud â digwyddiadau anabledd o fewn System Reoli Achosion Compass, ac fe'u tynnir o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass.

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu ar ôl treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion ar ôl treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

Penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd mewn 69% o'r holl achosion digwyddiadau anabledd a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2007-08.

**Tabl 1:** **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo**





| Pob Diffynnydd | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 187 | 69.0% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 2 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 75 | 27.7% |
| Pob penderfyniad arall | 7 | 2.6% |
| Cyfanswm | 271 | |

Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

## Euogfarnau

Yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2008, cafodd 183 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau yn ymwneud â digwyddiadau anabledd. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi'r canlyniadau, gan ddangos bod 77% o'r achosion a gwblhawyd wedi arwain at euogfarn yn 2007-08.

**Tabl 2: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad**





| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Euogfarnau | 141 | 77.0% |
| Aflwyddiannus | 42 | 23.0% |
| Cyfanswm | 183 | |


Mae'r tabl a'r siartiau isod yn dadansoddi erlyniadau yn fanwl ar gyfer troseddau digwyddiadau anabledd yn 2007-08. Roedd pledion euog yn cynrychioli 72% o'r cyfanswm, gan gyfrannu at y gyfradd euogfarnu o 77%. Roedd yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, yn 15% o gyfanswm y canlyniadau.

**Tabl 3: Canlyniadau Erlyn**

**Euogfarnau**



## Canlyniadau aflwyddiannus





| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 0 | 0.0% |
| Achosion Traddodi a Ryddhawyd | 1 | 0.5% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl | 27 | 14.8% |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *16* | *8.7%* |
| Gwrthodwyd ar ôl treial llawn | 12 | 6.6% |
| Dim achos i'w ateb | 0 | 0.0% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 0 | 0.0% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 2 | 1.1% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 42 | 23.0% |
| Ple euog | 131 | 71.6% |
| Euogfarnu ar ôl treial | 10 | 5.5% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% |
| Euogfarnau | 141 | 77.0% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 183 | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill (gan gynnwys achosion yn arwain at rwymo a rhyddfarn ar ôl treial). Yn 2007-08 categori y "rhesymau eraill" oedd y mwyaf ar 42.9%; nid oedd yr un yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol; roedd 31% yn aflwyddiannus am resymau tystiolaethol; 7.1% am resymau budd y cyhoedd ac 19% yn methu parhau. Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble methodd dioddefwr â mynychu gwrandawiad llys), y rhai sy'n arwain at rwymo, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd rybuddiad. O fewn y rhesymau dioddefwyr allweddol hyn, dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl a rhwymo oedd y categorïau mwyaf, y ddau yn 12%, tra oedd 12% o ganlyniad i'r dioddefwr yn peidio â mynychu, ac roedd 5% ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad. Methodd 36% oherwydd rhesymau allweddol. Roedd rhyddfarnau (31%) ac achosion ble'r oedd tyst neu dystion yn annibynadwy (15%) yn gyfrifol am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus na materion sy'n ymwneud â dioddefwyr, yn debyg i ddigwyddiadau hiliol a chrefyddol a throseddau homoffobig..

**Tabl 4: Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 5 | 11.9% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 2 | 4.8% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 2 | 4.8% |
| Rhybuddiad | 1 | 2.4% |
| Rhwymo | 5 | 11.9% |
| **Cyfanswm Prif Resymau** | *15* | *35.7%* |
| Pob Rheswn Arall | 27 | 64.3% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 42 | |

Mae tabl a siart 5 yn dangos bod materion sy'n ymwneud â dioddefwyr yn cynrychioli 9 diffynnydd, neu 5%, yn 2007-08. Roedd canlyniadau aflwyddiannus yn 23% o'r cyfanswm yn 2007-08.

**Tabl 5:** **Cymharu Materion Allweddol sy'n Ymwneud â Dioddefwyr**

**Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad**




| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| *Cyfanswm aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *9* | *4.9%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 42 | 23.0% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 141 | 77.0% |
| Cyfanswm Erlyniadau | 183 | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 53% o erlyniadau am droseddau digwyddiadau anabledd yn 2007-08. Roedd trefn gyhoeddus, bwrgleriaeth a dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn yn gyfrifol am 13%, 9% ac 8% pellach yn y drefn honno. Cofodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 52% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 14% yn rhai trefn gyhoeddus, 10% yn fwrgleriaeth a 9% yn droseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 56%, tra oedd trefn gyhoeddus, bwrgleriaeth a dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn oll yn is ar 6%. Dynion oedd 80% o'r diffynyddion lle nodwyd mai troseddau corfforol oedd y brif drosedd. Yma gwelir patrwm ychydig yn wahanol o droseddu, o gymharu â throseddau casineb eraill, gyda llai o droseddau corfforol yn gyffredinol, a chyfran uwch o ddwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn.

## Tynnu cyhuddiadau yn ôl

Er y sefydlwyd cyfleuster i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl ers mis Ebrill 2007, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Codi Dedfrydau

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ond eto mae'n parhau i gael ei datblygu. Y mae codi dedfrydau yn gymwys ar gyfer trosedd a ysgogir gan hil neu grefydd, trosedd homoffobig, a digwyddiadau anabledd yn unig. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Dynion oedd 82% o'r diffynyddion a erlynwyd.

**Tabl 6: Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**




| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Menywod | 33 | 18.0% |
| Dynion | 150 | 82.0% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 183 | |

## Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â'r diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2007-08, nodwyd bod 83% o ddiffynyddion trosedd digwyddiadau anabledd yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 86% eu categoreiddio fel Gwyn. Nodwyd bod 1% o'r diffynyddion yn Asiaidd, a bod ychydig dros 4% yn Ddu. Nid oedd 3% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio. O'r holl droseddau casineb, roedd cyfran gyfrannol uwch o ddigwyddiadau anabledd wedi'u cyflawni gan ddiffynyddion Gwyn.


## Data cydraddoldeb arall

Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers mis Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwyr*

**Rhyw**
Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael ar gyfer digwyddiadau anabledd o Ebrill 2007: fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw yn 2007-08, roedd 52% yn ddynion.

**Tabl 7: Rhyw Dioddefwyr**




| | 2007-08 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Menywod | 30 | 20.8% |
| Dynion | 33 | 22.9% |
| Ni wyddys | 81 | 56.3% |
| Cyfanswm | 144 | |

## Data cydraddoldeb arall

Bydd data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chafodd ei chynnwys yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Troseddau Digwyddiadau Anabledd

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, ni chofnodwyd bod yr un wedi'i gyfeirio at 'asiantaeth arbenigol' benodol, tra bo 32% wedi'u cyfeirio at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, a 68% yn destun 'cyfeirio arall'. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu.

## Atodiad 1: Erlyniadau fesul rhanbarth

### Cyfanswm Erlyniadau Trosedd Casineb y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **55,294** | **70.9%** | **22,711** | **29.1%** | **78,005** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1,523 | 73.7% | 543 | 26.3% | **2,066** |
| Swydd Bedford | 450 | 68.1% | 211 | 31.9% | **661** |
| Swydd Gaergrawnt | 550 | 69.6% | 240 | 30.4% | **790** |
| Sir Gaer | 1,241 | 72.7% | 466 | 27.3% | **1,707** |
| Cleveland | 901 | 70.2% | 383 | 29.8% | **1,284** |
| Cymbria | 508 | 78.6% | 138 | 21.4% | **646** |
| Swydd Derby | 1,275 | 71.6% | 505 | 28.4% | **1,780** |
| Dyfnaint a Chernyw | 998 | 69.2% | 445 | 30.8% | **1,443** |
| Dorset | 792 | 69.7% | 344 | 30.3% | **1,136** |
| Durham | 828 | 72.1% | 320 | 27.9% | **1,148** |
| Dyfed Powys | 409 | 81.0% | 96 | 19.0% | **505** |
| Essex | 1,064 | 70.3% | 450 | 29.7% | **1,514** |
| Swydd Gaerloyw | 692 | 78.8% | 186 | 21.2% | **878** |
| Manceinion Fwyaf | 4,024 | 74.4% | 1,383 | 25.6% | **5,407** |
| Gwent | 650 | 70.3% | 275 | 29.7% | **925** |
| Hampshire | 2,113 | 70.7% | 874 | 29.3% | **2,987** |
| Swydd Hertford | 769 | 68.8% | 349 | 31.2% | **1,118** |
| Glannau Humber | 1,084 | 81.5% | 246 | 18.5% | **1,330** |
| Caint | 1,358 | 70.0% | 581 | 30.0% | **1,939** |
| Swydd Gaerhirfryn | 3,170 | 77.4% | 924 | 22.6% | **4,094** |
| Swydd Gaerlyˆr | 1,359 | 74.5% | 466 | 25.5% | **1,825** |
| Swydd Lincoln | 562 | 75.5% | 182 | 24.5% | **744** |
| Glannau Mersi | 1,525 | 64.6% | 834 | 35.4% | **2,359** |
| Llundain a Dinas Llundain | 5,467 | 62.1% | 3,332 | 37.9% | **8,799** |
| Norfolk | 826 | 79.9% | 208 | 20.1% | **1,034** |
| Swydd Northampton | 398 | 76.7% | 121 | 23.3% | **519** |
| Northymbria | 1,891 | 66.7% | 946 | 33.3% | **2,837** |
| Gogledd Cymru | 902 | 78.9% | 241 | 21.1% | **1,143** |
| Gogledd Swydd Efrog | 516 | 73.4% | 187 | 26.6% | **703** |
| Swydd Nottingham | 1,027 | 63.1% | 600 | 36.9% | **1,627** |
| De Cymru | 1,356 | 67.6% | 649 | 32.4% | **2,005** |
| De Swydd Efrog | 1,696 | 73.3% | 617 | 26.7% | **2,313** |
| Swydd Stafford | 1,210 | 68.2% | 564 | 31.8% | **1,774** |
| Suffolk | 704 | 83.0% | 144 | 17.0% | **848** |
| Surrey | 546 | 67.0% | 269 | 33.0% | **815** |
| Sussex | 1,287 | 70.1% | 550 | 29.9% | **1,837** |
| Dyffryn Tafwys | 1,632 | 69.7% | 711 | 30.3% | **2,343** |
| Swydd Warwig | 482 | 86.4% | 76 | 13.6% | **558** |
| Gorllewin Mersia | 884 | 72.3% | 339 | 27.7% | **1,223** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3,554 | 69.3% | 1,571 | 30.7% | **5,125** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 2,498 | 72.8% | 932 | 27.2% | **3,430** |
| Wiltshire | 573 | 72.9% | 213 | 27.1% | **786** |

## Cyfanswm Erlyniadau Hiliol a Chrefyddol y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **10,398** | **79.9%** | **2,610** | **20.1%** | **13,008** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 268 | 81.7% | 60 | 18.3% | **328** |
| Swydd Bedford | 67 | 73.6% | 24 | 26.4% | **91** |
| Swydd Gaergrawnt | 68 | 76.4% | 21 | 23.6% | **89** |
| Sir Gaer | 164 | 80.4% | 40 | 19.6% | **204** |
| Cleveland | 142 | 82.1% | 31 | 17.9% | **173** |
| Cymbria | 69 | 90.8% | 7 | 9.2% | **76** |
| Swydd Derby | 149 | 75.3% | 49 | 24.7% | **198** |
| Dyfnaint a Chernyw | 143 | 81.7% | 32 | 18.3% | **175** |
| Dorset | 129 | 76.3% | 40 | 23.7% | **169** |
| Durham | 155 | 79.9% | 39 | 20.1% | **194** |
| Dyfed Powys | 53 | 81.5% | 12 | 18.5% | **65** |
| Essex | 186 | 75.0% | 62 | 25.0% | **248** |
| Swydd Gaerloyw | 79 | 81.4% | 18 | 18.6% | **97** |
| Manceinion Fwyaf | 980 | 81.7% | 219 | 18.3% | **1,199** |
| Gwent | 69 | 71.9% | 27 | 28.1% | **96** |
| Hampshire | 369 | 82.0% | 81 | 18.0% | **450** |
| Swydd Hertford | 202 | 78.6% | 55 | 21.4% | **257** |
| Glannau Humber | 132 | 84.1% | 25 | 15.9% | **157** |
| Caint | 223 | 83.8% | 43 | 16.2% | **266** |
| Swydd Gaerhirfryn | 585 | 85.7% | 98 | 14.3% | **683** |
| Swydd Gaerlyˆr | 329 | 86.8% | 50 | 13.2% | **379** |
| Swydd Lincoln | 110 | 83.3% | 22 | 16.7% | **132** |
| Glannau Mersi | 252 | 73.5% | 91 | 26.5% | **343** |
| Llundain a Dinas Llundain | 1,448 | 74.2% | 503 | 25.8% | **1,951** |
| Norfolk | 92 | 84.4% | 17 | 15.6% | **109** |
| Swydd Northampton | 91 | 85.0% | 16 | 15.0% | **107** |
| Northymbria | 327 | 71.6% | 130 | 28.4% | **457** |
| Gogledd Cymru | 150 | 85.7% | 25 | 14.3% | **175** |
| Gogledd Swydd Efrog | 75 | 80.6% | 18 | 19.4% | **93** |
| Swydd Nottingham | 228 | 74.5% | 78 | 25.5% | **306** |
| De Cymru | 183 | 78.9% | 49 | 21.1% | **232** |
| De Swydd Efrog | 250 | 85.9% | 41 | 14.1% | **291** |
| Swydd Stafford | 173 | 77.9% | 49 | 22.1% | **222** |
| Suffolk | 97 | 85.1% | 17 | 14.9% | **114** |
| Surrey | 166 | 75.8% | 53 | 24.2% | **219** |
| Sussex | 269 | 79.4% | 70 | 20.6% | **339** |
| Dyffryn Tafwys | 292 | 75.6% | 94 | 24.4% | **386** |
| Swydd Warwig | 113 | 91.1% | 11 | 8.9% | **124** |
| Gorllewin Mersia | 202 | 84.9% | 36 | 15.1% | **238** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 760 | 82.4% | 162 | 17.6% | **922** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 503 | 85.4% | 86 | 14.6% | **589** |
| Wiltshire | 56 | 86.2% | 9 | 13.8% | **65** |

## Cyfanswm Erlyniadau Homoffobig a Thrawsffobig y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **778** | **78.2%** | **217** | **21.8%** | **995** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 18 | 60.0% | 12 | 40.0% | **30** |
| Swydd Bedford | 4 | 80.0% | 1 | 20.0% | **5** |
| Swydd Gaergrawnt | 4 | 100.0% | 0 | 0.0% | **4** |
| Sir Gaer | 17 | 73.9% | 6 | 26.1% | **23** |
| Cleveland | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |
| Cymbria | 9 | 52.9% | 8 | 47.1% | **17** |
| Swydd Derby | 17 | 94.4% | 1 | 5.6% | **18** |
| Dyfnaint a Chernyw | 27 | 81.8% | 6 | 18.2% | **33** |
| Dorset | 7 | 50.0% | 7 | 50.0% | **14** |
| Durham | 12 | 75.0% | 4 | 25.0% | **16** |
| Dyfed Powys | 3 | 60.0% | 2 | 40.0% | **5** |
| Essex | 17 | 65.4% | 9 | 34.6% | **26** |
| Swydd Gaerloyw | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |
| Manceinion Fwyaf | 62 | 86.1% | 10 | 13.9% | **72** |
| Gwent | 8 | 88.9% | 1 | 11.1% | **9** |
| Hampshire | 46 | 85.2% | 8 | 14.8% | **54** |
| Swydd Hertford | 10 | 71.4% | 4 | 28.6% | **14** |
| Glannau Humber | 6 | 100.0% | 0 | 0.0% | **6** |
| Caint | 11 | 64.7% | 6 | 35.3% | **17** |
| Swydd Gaerhirfryn | 33 | 89.2% | 4 | 10.8% | **37** |
| Swydd Gaerlyˆr | 17 | 89.5% | 2 | 10.5% | **19** |
| Swydd Lincoln | 12 | 92.3% | 1 | 7.7% | **13** |
| Glannau Mersi | 24 | 70.6% | 10 | 29.4% | **34** |
| Llundain a Dinas Llundain | 106 | 74.6% | 36 | 25.4% | **142** |
| Norfolk | 18 | 75.0% | 6 | 25.0% | **24** |
| Swydd Northampton | 3 | 75.0% | 1 | 25.0% | **4** |
| Northymbria | 22 | 66.7% | 11 | 33.3% | **33** |
| Gogledd Cymru | 29 | 85.3% | 5 | 14.7% | **34** |
| Gogledd Swydd Efrog | 10 | 100.0% | 0 | 0.0% | **10** |
| Swydd Nottingham | 10 | 90.9% | 1 | 9.1% | **11** |
| De Cymru | 14 | 70.0% | 6 | 30.0% | **20** |
| De Swydd Efrog | 18 | 81.8% | 4 | 18.2% | **22** |
| Swydd Stafford | 15 | 93.8% | 1 | 6.3 | **16** |
| Suffolk | 5 | 100.0% | 0 | 0.0% | **5** |
| Surrey | 4 | 50.0% | 4 | 50.0% | **8** |
| Sussex | 40 | 78.4% | 11 | 21.6% | **51** |
| Dyffryn Tafwys | 20 | 76.9% | 6 | 23.1% | **26** |
| Swydd Warwig | 11 | 91.7% | 1 | 8.3% | **12** |
| Gorllewin Mersia | 10 | 62.5% | 6 | 37.5% | **16** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 44 | 86.3% | 7 | 13.7% | **51** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 17 | 85.0% | 3 | 15.0% | **20** |
| Wiltshire | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |

## Cyfanswm Erlyniadau Digwyddiadau Anabledd y CPS

| | 2007-08 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **141** | **77.0** | **42** | **23.0** | **183** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 2 | 100.0 | 0 | 0.0 | **2** |
| Swydd Bedford | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Swydd Gaergrawnt | 2 | 66.7 | 1 | 33.3 | **3** |
| Sir Gaer | 1 | 33.3 | 2 | 66.7 | **3** |
| Cleveland | 3 | 100.0 | 0 | 0.0 | **3** |
| Cymbria | 3 | 100.0 | 0 | 0.0 | **3** |
| Swydd Derby | 6 | 85.7 | 1 | 14.3 | **7** |
| Dyfnaint a Chernyw | 4 | 80.0 | 1 | 20.0 | **5** |
| Dorset | 0 | 0.0 | 3 | 100.0 | **3** |
| Durham | 1 | 100.0 | 0 | 0.0 | **1** |
| Dyfed Powys | 2 | 66.7 | 1 | 33.3 | **3** |
| Essex | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Swydd Gaerloyw | 1 | 100.0 | 0 | 0.0 | **1** |
| Manceinion Fwyaf | 7 | 77.8 | 2 | 22.2 | **9** |
| Gwent | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Hampshire | 7 | 100.0 | 0 | 0.0 | **7** |
| Swydd Hertford | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Glannau Humber | 2 | 100.0 | 0 | 0.0 | **2** |
| Caint | 1 | 50.0 | 1 | 50.0 | **2** |
| Swydd Gaerhirfryn | 2 | 100.0 | 0 | 0.0 | **2** |
| Swydd Gaerlyˆr | 8 | 66.7 | 4 | 33.3 | **12** |
| Swydd Lincoln | 3 | 60.0 | 2 | 40.0 | **5** |
| Glannau Mersi | 3 | 75.0 | 1 | 25.0 | **4** |
| Llundain a Dinas Llundain | 15 | 83.3 | 3 | 16.7 | **18** |
| Norfolk | 1 | 100.0 | 0 | 0.0 | **1** |
| Swydd Northampton | 0 | 0.0 | 1 | 100.0 | **1** |
| Northymbria | 9 | 100.0 | 0 | 0.0 | **9** |
| Gogledd Cymru | 7 | 77.8 | 2 | 22.2 | **9** |
| Gogledd Swydd Efrog | 2 | 100.0 | 0 | 0.0 | **2** |
| Swydd Nottingham | 0 | 0.0 | 1 | 100.0 | **1** |
| De Cymru | 6 | 66.7 | 3 | 33.3 | **9** |
| De Swydd Efrog | 1 | 33.3 | 2 | 66.7 | **3** |
| Swydd Stafford | 8 | 72.7 | 3 | 27.3 | **11** |
| Suffolk | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Surrey | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | **0** |
| Sussex | 6 | 85.7 | 1 | 14.3 | **7** |
| Dyffryn Tafwys | 2 | 100.0 | 0 | 0.0 | **2** |
| Swydd Warwig | 3 | 100.0 | 0 | 0.0 | **3** |
| Gorllewin Mersia | 4 | 66.7 | 2 | 33.3 | **6** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 12 | 75.0 | 4 | 25.0 | **16** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 4 | 80.0 | 1 | 20.0 | **5** |
| Wiltshire | 3 | 100.0 | 0 | 0.0 | **3** |

# Geirfa

## Troseddau casineb

| | |
|---|---|
| Trais yn y Cartref: | unrhyw ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng rhai sydd neu a fu yn bartneriaid agos neu'n aelodau teuluol, ni waeth o ba ryw neu rywioldeb. mae aelodau teuluol yn cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, boed yn perthyn trwy waed, trwy briodas, neu'n llysdeulu. |
| Digwyddiadau Hiliol a Chrefyddol: | digwyddiad hiliol neu grefyddol yw unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir yn un hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw un arall. |
| Trosedd Homoffobig: | unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir yn un homoffobig neu drawsffobig gan y dioddefwr neu gan unrhyw un arall. |
| Digwyddiadau Anabledd: | unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir, gan y dioddefwr neu unrhyw un arall, yn ddigwyddiad ar sail rhagfarn, neu gasineb tuag at y dioddefwr oherwydd ei anabledd. |
| **Baneri Monitro:** | bydd mathau senstif o achosion yn cael eu nodi trwy gyfrwng nifer o faneri monitro, a roddir ar achosion perthnasol ar y cam cyn cyhuddo. Trwy gyfrwng y baneri, gall rheolwyr foniro trafodion yn ystod oes yr erlyniad, a gellir adrodd am y canlyniad ar ôl diwedd yr achos. |

## Canlynisdau achosion

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo:** | Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a lle rhagwelir ple euog, Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ai peidio, ac os dylid, pa drosedd a ddewisir, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Pob penderfyniad arall: | ble rhoddir rhybuddiad, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y trosedd ei ystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno. |

| | |
|---|---|
| **Erlyniadau:** | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.. |
| Canlyniadau Aflwyddiannus: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol: | ble na all erlyniad fwrw ymlaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos mewn llys ac y cyflwynwyd gwarant gan y Fainc i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu ble bydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. |
| Achosion traddodi a ryddhawyd: | achosion traddodi ble bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau. |
| Terfynu a thynnu'n ôl: | O ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall y CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |
| Dim achos i'w ateb: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu: | achosion ble bydd y canlynol yn digwydd: ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor |
| Euogfarnau: | achos lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys: |
| Ple euog: | lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog. |
| Euogfarn yn dilyn treial: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando'r dystiolaeth. |
| Prawf yn absenoldeb: | Troseddau llai yw'r rhain – materion moduro yn bennaf - a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Categorïau Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Tystiolaethol: | ble bo'r erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. |
| Budd y cyhoedd: | ble'r ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn. |
| Methu parhau: | lle bo'r dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen. |
| Rhesymau eraill: | ble bydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl treial, neu ble nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol. |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu lle bo trafodion yn cael eu gohirio yn amhenodol. |

**Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ô: | ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn treial, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r acho: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y trosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond nad yw'r dioddefwr, serch hynny, ddim wedi tynnu'n ôl. |
| Rhybuddiad: | y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond y penderfynir wedyn y byddai rhybuddiad yn fwy priodol nag erlyn. |
| Rhwymo: | y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ond yn cytuno i gael ei rwymo. |
| Elfen gyfreithiol hanfodol: | ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. |
| Tyst neu dystion yn annibynadw: | pan fo tystiolaeth tyst neu dystion yr erlyniad, heblaw'r diffynnydd, yn cael ei hystyried yn annibynadwy, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| **Categori'r prif drosedd:** | bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. |

**Gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS http//www.cps.gov.uk**

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121